# Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**Mae ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yn amlinellu'r weledigaeth, yr amcanion a'r polisïau a'r ymyraethau strategol ar gyfer gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru dros y pum mlynedd nesaf.**

Rydym am greu rhwydwaith trafnidiaeth integredig diogel, cynaliadwy, fforddiadwy, gwydn ac effeithiol sy'n cefnogi twf economaidd, ffyniant a lles yng Ngogledd Cymru. Mae ein hamcanion yn glir: gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol, gwella hygyrchedd a'r dewis o drafnidiaeth, galluogi datgarboneiddio trwy'r newid i fflyd dim allyriadau, a meithrin twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol.

Mae ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yn crynhoi'r heriau a'r cyfleoedd unigryw i Ogledd Cymru ac yn amlinellu ein polisïau ac ymyraethau strategol ar draws gwahanol ddulliau o deithio, gan gynnwys rheilffyrdd, ffyrdd, bws, cerdded a beicio. Rydym yn cydnabod bod cael mynediad at wybodaeth gywir a chyfredol ar gyffyrddiad botwm yn gallu moderneiddio a thrawsnewid profiad cymudwyr felly mae arwyddocâd cysylltedd digidol yn cael ei gynyddu yn ein Cynllun drafft.

Mae ein cynigion hefyd yn canolbwyntio ar newid ymddygiad a lleihau'r angen i deithio mewn car, er enghraifft drwy integreiddio trafnidiaeth â datblygu economaidd a chynllunio defnydd tir yn well. Rydym hefyd yn ystyried anghenion ein systemau ynni wrth i ni gynyddu ein dibyniaeth ar ffynonellau tanwydd cynaliadwy amgen, fel cerbydau trydan.

Mae'r ymgynghoriad hwn a'r dogfennau drafft ategol yn cynrychioli ymdrechion cyfunol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, ei Is-bwyllgor Trafnidiaeth, a'n partneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru ac Arup - sydd wedi darparu cyngor arbenigol i lywio ei ddatblygiad. Rydym nawr eisiau eich barn ar ein cynigion i'n helpu i lunio a datblygu ein cynlluniau.

